# Your 2024 Postgraduate Certificate in Education in Wales Prospectus



The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru



# Open doors to teaching with The Open University Partnership

We're experts in helping people fit their studies around their life and their existing commitments.

Over the last 50 years we've helped over 175,000 students in Wales reach their goals through flexible learning.

The Open University, in partnership with the Welsh Government, Regional Consortia and Partner Schools across Wales, are offering a Postgraduate Certificate in Education (PGCE).

If you already work in a school, as a teaching assistant or in a non-teaching role, the **salaried route** enables you to study around your current duties. In secondary subjects on the salaried route we offer the opportunity for career changers to be 'matched' with high quality schools in Wales.

If you've always wanted to be a teacher, but you have existing life or work commitments, our **part-time route** offers you the opportunity to get the qualifications you need while balancing your other responsibilities.

Whichever route you take, you'll experience top-quality education accredited by the Education Workforce Council (EWC)[1]. Specialist curriculum tutors, in-school mentors, and our dedicated PGCE Wales Team will support you every step of the way. You'll gain all the skills, experience and qualifications you need to enter the teaching profession.

[1] The EWC is an independent, professional regulator for the education workforce in Wales, covering teachers and learning support staff in school and further education settings, qualified youth/youth support workers, and work-based learning practitioners. The EWC will assess our PGCE curriculum in January 2024 to ensure it continues to meet their requirements.

# How do I become a teacher?

To become a teacher, you need to attain Qualified Teacher Status (QTS) through an accredited provider in Wales.

Our PGCE will qualify you to work at either primary or secondary school level. You can study it in either Welsh or English, anywhere in Wales.

The programme is delivered through online learning and live online seminars, and will take two years of study to complete. You'll experience teaching in two different schools, through practice learning.

The qualification is designed for teaching in Wales and for the Welsh curriculum[1].

The programme is employability-focused and will prepare you to enter the teaching profession. As a vocational teaching qualification, it's accredited by EWC (Education Workforce Council) and monitored by Estyn.

The combination of academic and practice-based skills and experience is central to the programme, ensuring you're familiar with 'practice as theory and theory as practice'.

[1] The PGCE can be used to teach in England.

> The OU enabled me to study the PGCE while working, which isn't something anyone else is offering.

**Michael Rees**
**OU PGCE graduate and qualified Science teacher**

# Aims of the course

Our PGCE will equip you with all the skills and experience you need to start in the teaching profession, including the ability to:

- Demonstrate the knowledge, understanding and teaching skills needed, through the five professional standards.
- Think critically about the teaching and learning process, recognising the contribution you and others can make to pupil and whole-school success as part of a developing and coherent education culture in Wales.
- Recognise the needs and rights of all pupils and seek to develop the learning potential and achievement of all.
- Support pupils in gaining skills across all areas of learning – especially literacy, numeracy and digital competence.
- Use the full range of opportunities to promote learning, and work to overcome barriers that inhibit success.
- Share a commitment to the central importance of the promotion of Welsh culture and language.
- Engage critically with research, seeking evidence to inform your judgements, and use research techniques to improve your practice.
- Demonstrate a commitment to career-long professional and personal development, and the development of the school, for the benefit of your pupils.

# How does studying with the OU work?

## Distance learning with the OU

We've designed our learning experience to combine flexibility and regular contact. We'll give you the help you need to learn in the best possible way. You'll be able to study at home, in school, or on the move.

You'll use our virtual learning environment to access compulsory live tutorials, module content such as textbooks, video and audio, and practice-learning activities. It's also where you'll interact with tutors and other students in online forums.

## How is the PGCE taught?

You can follow one of two routes: the salaried route or the part-time route. Both include a mix of online and face-to-face sessions with mentors and practice tutors. You'll also have practical experience (practice learning) across two schools.

### Salaried route

If you already work in a state school as a teaching assistant or in a non-teaching role, you can apply for your school to endorse you. You'll work in school and study around your existing duties. Your school must apply to become a partner school and provide an endorsement letter, as they will pay your salary. Your costs of study are covered by a training grant from the Welsh Government.

If you don't currently work in a state school or want to change careers, you can still apply for the salaried route in secondary shortage subjects. You'll need a secondary school willing to endorse you, which we can help you find.

### Part-time route

If you're a career changer wanting to become a teacher, or the salaried route isn't right for you, consider our part-time option. You can study towards your PGCE around a part-time job or other life commitments. You can apply for a student loan and part-time maintenance grants to help with the costs of this self-funded route.

This route offers some flexibility as you can gain part-time practical teaching experience in a school alongside your existing commitments. You'll need to commit two to three days a week on average throughout the programme to the PGCE. Across the two years, you'll have 120 days of school placements; 60 days per year. In the second year, half of your school placement (30 days) must be completed in a continuous block.

Please see the Fees and funding section for information on financial support available for part-time students in Wales.

## Will I have support?

Although we teach our PGCE through distance learning, there's lots of support available. You'll have a curriculum tutor who'll be a specialist in your chosen field, and an in-school mentor who'll provide support and practical advice.

In addition, you'll be able to speak to the PGCE Wales Team who can give you help and guidance throughout your studies. Plus, you can connect with fellow students through our module discussion groups.

## Students association

You'll automatically become a member of our active students association when you register.

Find out more at **openuniversity.co.uk/ousa**.

## Do you have additional support needs?

We're committed to supporting disabled students, or helping you with any additional needs you may have. We'll give you the tools to help overcome obstacles that could stand in the way of your studies. We'll consider what reasonable adjustments can be made when finding practice learning placements in schools.

### Disabled Students' Allowance (DSA)

A DSA can help you with study costs that result directly from your disability or specific learning difficulty. For more information see page 8.

> The PGCE Wales Team paired me with a secondary school on the salaried route, so I combine my studies with in-school experience and I earn a salary.

**Thitaree Srithong**
**OU PGCE graduate and qualified Maths teacher**

# How do I achieve my PGCE?

## We'll award you the PGCE on successful completion of 120 credits.

In the first year, you will study *PGCE 1 and 2* at level 6 (undergraduate) and you will be awarded 60 credits on completion. In the second year, you will study *PGCE 3* at level 7 (postgraduate) and be awarded a further 60 credits.

The modules are compulsory, and you study them in the order specified.

You'll complete the qualification in two years. The first year starts in September and finishes in June.

The second year starts officially in September and finishes the following June. You'll receive your results in July. Break weeks coincide with the Welsh school holidays.

| September – June (Year 1) | September – June (Year 2) |
|---|---|
| *PGCE 1 and 2* | *PGCE 3* |
| 60 credits | 60 credits |

Each module involves academic study through online seminars led by your curriculum tutor; a period of school experience; and the submission of a portfolio of evidence that includes responses to academic tasks and reports from your school experience.

If you're on the salaried route, we work with your school to create a combined timetable of activities.

This includes your normal work, protected study time and dedicated PGCE practice learning periods. If you're on the part-time route, you'll study two to three days a week, either in academic study or on your school placement. The exception to this is on *PGCE 3* where you must commit to 30 full days of teaching (five days a week over six consecutive school weeks).

> With two young children, the part-time PGCE fits perfectly with our family situation.
>
> **Catrin Williams**
> **OU PGCE student**

*Continued on page 5.*



## What subjects can I study?

You can qualify at primary or secondary school level.

On the salaried programme you can choose from:

- Primary
- Secondary Welsh
- Secondary Science
- Secondary Mathematics
- Secondary English
- Secondary Design and Technology
- Secondary Computing/ICT.

On the part-time programme you can choose from:

- Primary
- Secondary Welsh
- Secondary Science
- Secondary Mathematics
- Secondary English
- Secondary English with Media Studies
- Secondary English with Drama
- Secondary Design and Technology
- Secondary Computing/ICT.

More detail about the subjects on offer, can be found on our website, visit **openuniversity.co.uk/wales-pgce**.

Study on both routes, at either primary or secondary level, is available in both Welsh and English.

## What will the course cover?

Teaching across all of the modules will be focused on practice.

### You'll develop skills in these areas:

- Curriculum
- Children's learning
- Planning
- Teaching
- Assessment
- Professional role.

You'll move from introduction, familiarisation and consolidation of your learning in *PGCE 1 and 2*, to autonomy of teaching practice in *PGCE 3*.

As you move through the modules, your understanding of the theories and concepts will progress. Your practical experience and assessments will also prepare you for your next module.

Throughout your online studies and your school-based experiences you'll learn about the interrelation of theory and practice in order to become a critical thinker and research-informed practitioner.

## How will I be assessed?

In each module, you'll be assessed through a range of tasks, including written essays. In addition, you'll build an eportfolio of evidence demonstrating your practical progress against the professional standards including lesson observations, mentor discussion records and formal assessment of your teaching by a practice tutor.

## When are my school placements?

Academic theory will be combined with substantial, supported experience in schools. Salaried students will undertake practical experience at the same time as studying. For part-time students, practical experience is supported by prior academic study in each module.

You'll work with your mentor, and school staff members to take on increasing teaching responsibility. You'll develop your skills in classroom support, planning and teaching lessons in *PGCE 1 and 2*. You'll then have responsibility for planning, resourcing and solo teaching a range of lessons in *PGCE 3*.

Whether you're on the salaried or part-time route, you'll undertake an individual classroom research project in *PGCE 3*. For students on the part-time route, you'll need to complete 60 days of teaching experience during this module, half of which will be completed in a continuous block (five days a week over six consecutive school weeks).

Mentors will support you throughout your school experience. They'll mediate and facilitate regular school-based tasks, which feed into your studies. More detail about the exact timing of placements can be found on our website.

# What are the entry requirements?

To apply for the salaried route you must have a home address in Wales or England (all school placements must take place in a state school in Wales). If you're applying for the part-time route you must have a home address in Wales.

## You must also have the following[1]:

- A full 360 credit UK honours degree (or equivalent). If you want to become a secondary school teacher, your degree must contain a significant proportion of the subject you want to teach. For applicants interested in studying PGCE Secondary Welsh, if you are a fluent Welsh speaker you do not need to have a degree in Welsh in order to be considered.
- GCSE Mathematics or Mathematics-numeracy at Grade C or above (or equivalent).
- GCSE English Language or Welsh First Language at Grade C or above (or equivalent).
- GCSE Science at Grade C or above (or equivalent) if you want to become a primary school teacher.
- Experience working in a school environment/with young people if you want to study the salaried route. Be prepared to complete a voluntary week in school before starting the course if you want to study the part-time route.

[1] For up to date information on entry requirements, visit openuniversity.co.uk/wales-pgce.

## In addition, you'll need to demonstrate the following:

- Aptitude, capability, and resilience to meet the required Qualified Teacher Status (QTS) outcomes by the end of your PGCE programme.
- Personal and intellectual qualities to become an excellent practitioner.
- You can read effectively and communicate clearly and accurately in spoken and written English and/or Welsh.
- Personal functional skills in literacy, numeracy and digital competency applicable in a professional teaching and learning context. This will be evaluated through an assessment.

## During the application process you'll need to do the following:

- Apply for a Disclosure and Barring Service (DBS) check to show that you are not or have not previously been barred or excluded from teaching or working with learners, or have a criminal background that might prevent you working with children or vulnerable people. Safeguarding is a legal requirement. The DBS check is undertaken by an external company and you will be charged a fee.
- Confirm you understand that you'll need to complete an extended period of time in a second school.
- You'll need access to a computer with a reliable internet connection.
- If you're applying for the salaried route, your school must be approved by the OU partnership and provide you with an endorsement letter. Visit our School Partnerships page to find out how your school can become a PGCE partner school.
- Salaried students will need to register with the Education Workforce Council as a School Support Worker before starting the programme.



# Fees and funding

The cost of studying the PGCE depends on the route you're applying for.

## How much does it cost?

- **Salaried route** – Your costs of study are covered by a training grant from the Welsh Government. The salary received by students will ordinarily be set at the minimum of the unqualified teacher pay scale (eg. £19,689 for the 2022/2023 academic year.)
- **Part-time route** – The course fee is £2,625 per year, which you'll pay on an annual basis. The total cost for the PGCE will be £5,250[1].

[1] Based on 2023 entry fees. Fees normally increase annually in line with inflation and the University's strategic approach to fees.

## Funding for part-time route

### Student loan

A student loan from Student Finance Wales might be the best way to fund your studies.

#### Key facts

- Repayments start when your income exceeds the threshold (£27,295 as of April 2022, this is subject to change in 2024).
- Repayments are deducted automatically from your salary.
- You can pay off the loan early without any penalties.
- Any balance outstanding after 30 years will be written off.

Refer to our website for the latest information at **openuniversity.co.uk/pgce-funding**.

### Other payment methods

You can pay using a debit or credit card, or by bank transfer. Or spread the cost with an Open University Student Budget Account (OUSBA) (see opposite for more information).

## Other financial support

### Maintenance support

If you're on the part-time route, you can also apply for up to £3,000[2] in funding to help with living costs while you're studying. The maintenance grant isn't a loan, so you won't need to pay it back. The amount you receive is based on your annual household income. If you aren't eligible for the maximum amount you can also apply for a top-up loan to make up the difference.

### Teacher Training Incentives

Additionally, you may be entitled to incentives from the Welsh Government. These are dependent upon your degree classification and the phase or subject you choose.

More information can be found by visiting the gov.wales website.[3]

[2] Correct as of academic year 2023/2024.
[3] These incentives are published annually and therefore are subject to change.

## Study support and discretionary funds

You might be eligible for additional means-tested funding. This is only for study-related costs, such as travel, childcare and internet access.

## Disabled Students' Allowance (DSA)

A DSA can help you with study costs that result directly from your disability or specific learning difficulty. They're not means-tested and can go towards specialist equipment (such as an adapted computer), non-medical study support (e.g. a dyslexia support worker) or other related expenses. You can also apply for help with study-related travel costs that result directly from your disability.

For more information, go to **openuniversity.co.uk/disability** or call us on **029 2047 1170**.

## Open University Student Budget Accounts Ltd (OUSBA)

When you enrol with us, you'll be offered the opportunity to pay your fees through a loan from OUSBA.

OUSBA will pay your fees to The Open University, and you repay OUSBA either in a single sum before your course starts – in this case there's no interest – or in monthly instalments of up to a year – in this case, interest does apply. The interest rate is fixed for the duration of the course (representative APR 5.1%).

If you're worried about affordability or a poor credit history, you can apply for a joint loan application with a third party e.g. partner, sibling, friend, etc.

Find out more about OUSBA at **openuniversity.co.uk/ousba**.

As a responsible lender, OUSBA carries out affordability checks as part of the application process.

> Now as a qualified teacher, I'm so thankful that I choose the OU and for the amazing schools that helped and supported me on my journey.

**Wayne Williams**
**OU PGCE graduate and qualified primary school teacher**

## More online

Find out more about fees and funding.

Visit **openuniversity.co.uk/pgce-funding**

openuniversity.co.uk

# How do I apply?

As part of the selection process, and in conjunction with Partner Schools, you must do the following:

- Complete a PGCE Wales application form. This will include a personal statement and references. Applicants for the salaried route must also include an endorsement letter from their school. This is written confirmation that a school is happy to participate in the programme and pay part (or all) of your salary, dependent upon which phase or specialism. (A template for this is available on our website and **must** be used and submitted at the same time as your application.) This can be from a state school you are already employed by or one which you have approached. Only applicants for secondary shortage subjects on the salaried route can apply without an employer's endorsement. We can potentially match you to a state school who are seeking a secondary salaried student.
- Successfully complete the selection process which will involve interviews and a variety of assessment methods to ensure that any prospective student teacher meets the statutory entry requirements for student teachers in Wales.
- Achieve an International English Language Testing Systems (IELTS) score of 7 (if English is not your first language and your home country is outside the UK).
- Confirm that you meet the requirements of the Welsh Government's Education Health Standards.

## Next steps

For more information and to start the registration process:

- Visit **openuniversity.co.uk/wales-pgce**.
- Or, speak to one of our friendly advisers at the OU in Wales on **029 2002 0354**. Lines are open (UK time) Monday to Friday: 08:30 – 17:00.
- You can also email us at **wales-pgce@open.ac.uk**.

We welcome correspondence in Welsh and in English and corresponding with us in Welsh will not lead to delay.

The Open University is incorporated by Royal Charter (RC 000391), an exempt charity in England & Wales, and a charity registered in Scotland (SC 038302).

The Open University is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority in relation to its secondary activity of credit broking.

Printed by Paragon-CC on FSC® certified stocks and using 100% vegetable inks.

Copyright © 2023
The Open University.
SUP 118036

All information provided in this prospectus is correct at time of production (September 2023), however information is subject to change. Please visit our website for the most up-to-date information.

Mae fersiwn o'r prosbectws hwn ar gael yn Gymraeg.

MIX
Paper from responsible sources
FSC® C007810
FSC
www.fsc.org

# Eich Prosbectws Tystysgrif Addysg i Raddedigion yng Nghymru 2024



The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru



# Agor y drysau i addysgu gyda phartneriaeth Y Brifysgol Agored

Rydym yn arbenigwyr mewn helpu pobl i drefnu eu hastudiaethau o amgylch eu bywyd a'u hymrwymiadau presennol.

Dros y 50 mlynedd diwethaf, rydym wedi helpu dros 175,000 o fyfyrwyr yng Nghymru i gyflawni eu nodau drwy ddysgu hyblyg.

Mae'r Brifysgol Agored, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y Consortia Rhanbarthol ac Ysgolion Partner ledled Cymru, yn cynnig Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg (TAR).

Os ydych eisoes yn gweithio mewn ysgol, fel cymhorthydd addysgu neu mewn swydd nad yw'n ymwneud ag addysgu, mae'r **llwybr cyflogedig** yn eich galluogi i astudio o amgylch eich dyletswyddau presennol. Mewn pynciau uwchradd ar y llwybr cyflogedig, rydym yn cynnig cyfle ar gyfer newidwyr gyrfa i gael eu 'paru' ag ysgolion o safon uchel yng Nghymru.

Os ydych wastad wedi eisiau bod yn athro/athrawes, ond bod gennych eisoes ymrwymiadau bywyd neu waith, mae ein **llwybr rhan-amser** yn cynnig y cyfle i chi gael y cymwysterau sydd eu hangen arnoch wrth gydbwyso eich cyfrifoldebau eraill.

Pa bynnag lwybr a ddewiswch, byddwch yn cael addysg o'r safon uchaf wedi'i hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA)[1]. Bydd tiwtoriaid cwricwlwm arbenigol, mentoriaid yn yr ysgol, a'n Tîm TAR Cymru ymroddedig yn eich cefnogi bob cam o'r ffordd. Byddwch yn ennill yr holl sgiliau, profiad a chymwysterau sydd eu hangen arnoch i ymuno â'r proffesiwn addysgu.

[1] Mae CGA yn rheolydd annibynnol, proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru, sy'n cwmpasu athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a lleoliadau addysg bellach, gweithwyr ieuenctid/cymorth ieuenctid cymwys, ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith. Bydd CGA yn asesu ein cwricwlwm TAR ym mis Ionawr 2024 i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni eu gofynion.

ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES

EAS

PARTNERIAETH

Consortiwm Canolbarth y De Central South Consortium

GwE

Partneriaid Addysg Canol Cymru
Mid Wales Education Partners

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Powys

# Sut ydw i'n dod yn athro/athrawes

I gymhwyso fel athro, mae angen i chi ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) trwy ddarparwr achrededig yng Nghymru.

Bydd ein cwrs TAR yn eich cymhwyso i weithio naill ai ar lefel ysgol gynradd neu uwchradd. Gallwch ei astudio yn y Gymraeg neu'r Saesneg, unrhyw le yng Nghymru.

Ar y rhaglen, byddwch yn dysgu ar-lein ac yn dilyn seminarau ar-lein byw. Bydd yn cymryd dwy flynedd o astudio i gwblhau’r rhaglen a byddwch yn profi addysgu mewn dwy ysgol wahanol.

Mae'r cymhwyster wedi'i ddylunio ar gyfer addysgu yng Nghymru a chwricwlwm Cymru[1].

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyflogadwyedd a bydd yn eich paratoi i fynd i mewn i'r proffesiwn addysgu. Fel cymhwyster addysgu galwedigaethol, mae wedi'i achredu gan CGA (Cyngor y Gweithlu Addysg) a'i fonitro gan Estyn.

Mae'r cyfuniad o sgiliau a phrofiad academaidd ac ymarferol yn ganolog i'r rhaglen, gan sicrhau eich bod yn gyfarwydd ag 'ymarfer fel theori a theori fel ymarfer'.

[1] Gellir defnyddio'r cymhwyster TAR i ddysgu yn Lloegr.

> Galluogodd y Brifysgol Agored i fi astudio'r TAR wrth weithio, sydd ddim yn rhywbeth y mae unrhyw un arall yn ei gynnig.

**Michael Rees**
**Un o raddedigion TAR y Brifysgol Agored ac athro Gwyddoniaeth gymwysedig**

# Nodau'r cwrs

Bydd ein cwrs TAR yn rhoi'r holl sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnoch i ddechrau yn y proffesiwn addysgu, gan gynnwys y gallu i:

- Arddangos yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau addysgu sy'n ofynnol, drwy'r pum safon broffesiynol.
- Meddwl yn feirniadol am y broses addysgu a dysgu, cydnabod y cyfraniad y gallwch chi ac eraill ei wneud i lwyddiant y disgybl a'r ysgol gyfan fel rhan o ddatblygu diwylliant addysgol cydlynol yng Nghymru.
- Adnabod anghenion a hawliau'r holl ddisgyblion a cheisio datblygu potensial dysgu a chyflawniad pawb.
- Cefnogi disgyblion i feithrin sgiliau ar draws pob maes dysgu - yn enwedig llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
- Defnyddio'r ystod o gyfleoedd i hyrwyddo dysgu, a gweithio i oresgyn rhwystrau sy'n atal llwyddiant.
- Rhannu ymrwymiad i bwysigrwydd canolog hyrwyddo diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.
- Ymgysylltu'n feirniadol ag ymchwil, gan geisio tystiolaeth i lywio eich beirniadaethau a defnyddio technegau ymchwil i wella eich ymarfer.
- Arddangos ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol a phersonol parhaus ar hyd eich gyrfa, a datblygiad yr ysgol, er budd eich disgyblion.

# Sut mae astudio gyda'r Brifysgol Agored yn gweithio?

## Astudio o bell gyda'r Brifysgol Agored

Rydym wedi dylunio ein profiad dysgu i gyfuno hyblygrwydd a chyswllt rheolaidd. Byddwn yn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnoch i ddysgu yn y ffordd orau bosibl. Byddwch yn gallu astudio o adref, yn yr ysgol, neu le bynnag y mynnoch.

Byddwch yn defnyddio ein hamgylchedd dysgu rhithwir i gael mynediad at diwtorialau byw gorfodol, cynnwys modiwlau megis gwerslyfrau, fideo a sain, a gweithgareddau ymarfer dysgu. Yma hefyd byddwch yn rhyngweithio â thiwtoriaid a myfyrwyr eraill mewn fforymau ar-lein.

## Sut yr addysgir y Dystysgrif Addysg i Raddedigion?

Gallwch ddilyn un o ddau lwybr: y llwybr cyflogedig neu'r llwybr rhan-amser. Mae'r ddau yn cynnwys cymysgedd o sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb gyda mentoriaid a thiwtoriaid ymarfer. Byddwch hefyd yn cael profiad ymarferol (dysgu trwy ymarfer) ar draws dwy ysgol.

### Llwybr cyflogedig

Os ydych eisoes yn gweithio mewn ysgol wladol, fel cymhorthydd addysgu neu mewn swydd nad yw'n ymwneud ag addysgu, gallwch wneud cais i'ch ysgol eich noddi. Byddwch yn gweithio yn yr ysgol ac yn astudio o amgylch eich dyletswyddau presennol. Rhaid i'ch ysgol wneud cais i ddod yn ysgol bartner a darparu llythyr ardystio, gan y byddant yn talu eich cyflog. Mae eich costau astudio'n cael eu talu gan grant hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru.

Os nad ydych yn gweithio mewn ysgol wladol ar hyn o bryd neu eisiau newid gyrfa, gallwch wneud cais am y llwybr cyflogedig ar gyfer pynciau prinder uwchradd. Bydd angen i chi gael ysgol uwchradd wladol sy'n fodlon eich noddi, a gallwn eich helpu i ddod o hyd i un.

### Llwybr rhan-amser

Os ydych chi wastad eisiau bod yn athro, ond nid yw'r llwybr cyflogedig yn gweddu i chi, gallwch ystyried ein hopsiwn rhan-amser. Gallwch astudio eich TAR o amgylch swydd rhan amser neu ymrwymiadau bywyd eraill. Gallwch wneud cais am fenthyciad myfyriwr a grantiau cynhaliaeth rhan-amser i helpu gyda chostau'r llwybr hunan-ariannu hwn.

Mae'r llwybr hwn yn cynnig peth hyblygrwydd gan y gallwch ennill profiad addysgu ymarferol rhan-amser mewn ysgol law yn llaw â'ch ymrwymiadau presennol. Bydd angen i chi ymrwymo i 2-3 diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd trwy gydol y rhaglen TAR. Dros y ddwy flynedd, bydd gennych 120 diwrnod o leoliad dysgu; 60 diwrnod y flwyddyn. Yn yr ail flwyddyn, rhaid cwblhau hanner o'ch lleoliad ysgol (30 diwrnod) mewn bloc parhaus.

Edrychwch ar yr adran Ffioedd a Chyllid i gael gwybodaeth am gymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr rhan amser yng Nghymru.

## A fyddaf yn cael cymorth?

Er ein bod yn addysgu ein TAR drwy ddysgu o bell, mae llawer o gymorth ar gael. Byddwch yn cael tiwtor cwricwlwm fydd yn arbenigo yn eich maes dewisol, a byddwch yn cael cymorth a chyngor ymarferol gan fentor yn yr ysgol.

Yn ogystal, byddwch yn gallu siarad â Thîm TAR Cymru a all roi cymorth ac arweiniad i chi drwy gydol eich astudiaethau. Gallwch hefyd gysylltu â'ch cyd-fyfyrwyr trwy ein grwpiau trafod modiwl.

## Cymdeithas myfyrwyr

Byddwch yn dod yn aelod awtomatig o'n cymdeithas myfyrwyr weithgar pan fyddwch yn cofrestru.

Darganfyddwch fwy yn **openuniversity.co.uk/ousa**.

## A oes gennych chi anghenion cymorth ychwanegol?

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr anabl, neu eich helpu gydag unrhyw anghenion ychwanegol sydd gennych. Byddwn yn rhoi'r adnoddau i chi i'ch helpu i oresgyn rhwystrau a allai fod yn amharu ar eich astudiaethau. Byddwn yn ystyried pa addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud wrth ddod o hyd i leoliadau ymarfer dysgu mewn ysgolion.

### Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA)

Gall DSA eich helpu gyda chostau astudio sy'n deillio'n uniongyrchol o'ch anabledd neu anhawster dysgu penodol. I gael rhagor o fanylion, gweler tudalen 8.

> Cefais fy mharu ag ysgol uwchradd ar y llwybr cyflogedig gan Dîm TAR Cymru, felly cefais gyfuno fy astudiaethau gyda phrofiad mewn ysgol, ac ennill cyflog.

**Thitaree Srithong**
**Ein myfyriwr TAR graddedig ac athro Mathemateg cymwys**

# Sut ydw i'n cyflawni fy Nhystysgrif Addysg i Raddedigion?

Byddwn yn dyfarnu'r TAR i chi ar ôl i chi gwblhau 120 credyd yn llwyddiannus.

Yn y flwyddyn gyntaf byddwch yn astudio TAR 1 a 2 ar lefel 6 (israddedig) a byddwch yn cael 60 credyd ar ôl ei gwblhau. Yn yr ail flwyddyn byddwch yn astudio cwrs TAR 3 ar lefel 7 (ôl-raddedig) ac yn cael 60 credyd arall.

Mae'r modiwlau yn orfodol, a byddwch yn eu hastudio yn y drefn a nodir.

Byddwch yn cwblhau'r cymhwyster mewn dwy flynedd. Mae'r flwyddyn gyntaf yn dechrau ym mis Medi ac yn gorffen ym mis Mehefin. Mae'r ail flwyddyn yn dechrau'n swyddogol ym mis Medi ac yn gorffen yn y mis Mehefin canlynol. Byddwch yn cael eich canlyniadau ym mis Gorffennaf. Mae'r wythnosau egwyl yn cyd-fynd â gwyliau ysgol Cymru.

| Medi - Mehefin (Blwyddyn 1) | Medi - Mehefin (Blwyddyn 2) |
|---|---|
| ***TAR 1 a 2*** | ***TAR 3*** |
| **60 credyd** | **60 credyd** |

Mae pob modiwl yn cynnwys astudio academaidd drwy seminarau ar-lein dan arweiniad eich tiwtor cwricwlwm; cyfnod o brofiad ysgol; a chyflwyno portffolio o dystiolaeth sy'n cynnwys ymatebion i dasgau academaidd ac adroddiadau o'ch profiad ysgol.

Os ydych chi ar y llwybr cyflogedig, byddwn yn gweithio gyda'ch ysgol i greu amserlen gyfunol o weithgareddau.

Mae hyn yn cynnwys eich gwaith arferol, amser astudio a warchodir a chyfnodau dysgu ymarfer TAR dynodedig. Os ydych chi ar y llwybr rhan-amser, byddwch yn astudio 2-3 diwrnod yr wythnos, naill ai mewn sesiynau astudio academaidd neu ar eich lleoliad ysgol. Yr eithriad i hyn yw ar *TAR 3* lle mae'n rhaid i chi ymrwymo i 30 diwrnod llawn o addysgu (pum niwrnod yr wythnos dros gyfnod o chwe wythnos ysgol yn olynol).

> Gyda dau o blant ifanc, mae'r cwrs TAR rhan-amser yn ffitio'n wych gyda'n sefyllfa deuluol.

**Catrin Williams**
**Myfyriwr TAR y Brifysgol Agored**

*Parhad ar dudalen 5.*



## Pa byncíau gallaf eu hastudio?

Gallwch gymhwyso ar lefel ysgol gynradd neu uwchradd.

Ar y rhaglen gyflogedig, gallwch ddewis o blith:

- Cynradd
- Cymraeg Uwchradd
- Gwyddoniaeth Uwchradd
- Mathemateg Uwchradd
- Saesneg Uwchradd
- Dylunio a Thechnoleg Uwchradd
- Cyfrifiadura/TGCh Uwchradd.

Ar y rhaglen ran-amser, gallwch ddewis o blith:

- Cynradd
- Cymraeg Uwchradd
- Gwyddoniaeth Uwchradd
- Mathemateg Uwchradd
- Saesneg Uwchradd
- Saesneg gydag Astudiaethau'r Cyfryngau Uwchradd
- Saesneg gyda Drama Uwchradd
- Dylunio a Thechnoleg Uwchradd
- Cyfrifiadura/TGCh Uwchradd.

Ceir rhagor o fanylion am y pynciau sydd ar gael, ar ein gwefan, ewch i **openuniversity.co.uk/cymru-tar**.

Mae'r ddau lwybr, naill ai ar lefel gynradd neu uwchradd, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Cynnwys y cwrs

Bydd yr addysgu ar draws pob modiwl yn canolbwyntio ar ymarfer.

### Byddwch yn datblygu sgiliau yn y meysydd canlynol:

- Cwricwlwm
- Dysgu gan blant
- Cynllunio
- Addysgu
- Asesiad
- Rôl broffesiynol.

Byddwch yn symud o gyflwyno, ymgyfarwyddo ac atgyfnerthu eich dysgu yn *TAR 1 a 2* i ymarfer addysgu yn annibynnol yn *TAR 3*.

Wrth i chi symud drwy'r modiwlau, bydd eich dealltwriaeth o'r theorïau a'r cysyniadau yn gwella. Bydd eich profiad ymarferol a'ch asesiadau hefyd yn eich paratoi ar gyfer eich modiwl nesaf.

Trwy gydol eich astudiaethau ar-lein a'ch profiadau yn yr ysgol byddwch yn dysgu am y gydberthynas rhwng theori ac ymarfer er mwyn dod yn feddyliwr beirniadol ac yn ymarferydd sy'n cael ei lywio gan ymchwil.

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

Ym mhob modiwl, byddwch yn cael eich asesu trwy amrywiaeth o dasgau, yn cynnwys traethodau ysgrifenedig. Yn ogystal, byddwch yn adeiladu e-bortffolio o dystiolaeth yn dangos eich cynnydd ymarferol yn erbyn y safonau proffesiynol sy'n cynnwys arsylwi gwersi, cofnodion trafodaethau gyda mentor ac asesiad ffurfiol o'ch addysgu gan diwtor ymarfer.

## Pryd bydd fy lleoliadau ysgol?

Bydd theori academaidd yn cael ei chyfuno â phrofiad sylweddol a gefnogir yn yr ysgolion. Bydd myfyrwyr cyflogedig yn ymgymryd â phrofiad ymarferol wrth astudio. Ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, cefnogir profiad ymarferol gan astudiaeth academaidd ym mhob modiwl.

Byddwch yn gweithio gyda'ch mentor, ac aelodau staff yr ysgol i ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau addysgu. Byddwch yn datblygu eich sgiliau cefnogi yn y dosbarth, a chynllunio a dysgu gwersi yn *TAR 1 a 2*. Bydd gennych wedyn gyfrifoldeb dros gynllunio, darparu adnoddau a dysgu unigol mewn ystod o wersi yn *TAR 3*.

P'un ai yr ydych ar y llwybr cyflogedig neu'r llwybr rhan-amser, yn *TAR 3*, byddwch yn ymgymryd â phrosiect ymchwil unigol yn y dosbarth. Ar gyfer myfyrwyr sydd ar y llwybr rhan-amser, bydd angen ichi gwblhau 60 diwrnod o brofiad addysgu yn ystod y modiwl hwn. Bydd hanner yn cael ei gwblhau mewn bloc parhaus (pum niwrnod yr wythnos dros chwe wythnos ysgol ddilynol).

Bydd mentoriaid yn eich cefnogi drwy gydol y profiad ysgol. Byddant yn cyflwyno ac yn hwyluso tasgau rheolaidd yn yr ysgol, a fydd yn bwydo i mewn i'ch astudiaethau. Mae rhagor o fanylion ynghylch amseroedd penodol lleoliadau i'w gweld ar ein gwefan.

# Beth yw'r gofynion mynediad?

I wneud cais am y llwybr cyflogedig rhaid i chi fod â chyfeiriad cartref yng Nghymru neu Loegr (rhaid i bob lleoliad ysgol ddigwydd mewn ysgol wladol yng Nghymru). Os ydych yn gwneud cais am y llwybr rhan-amser, rhaid i chi fod â chyfeiriad cartref yng Nghymru.

## Rhaid i chi gael y canlynol hefyd[1]:

- Gradd anrhydedd lawn 360 credyd yn y DU (neu gyfwerth). Os ydych chi am ddod yn athro ysgol uwchradd, rhaid i'ch gradd gynnwys cyfran sylweddol o'r pwnc rydych chi am ei addysgu. Ar gyfer ymgeiswyr sydd â diddordeb mewn astudio TAR Cymraeg Uwchradd, os ydych yn siaradwr Cymraeg rhugl nid oes angen gradd yn y Gymraeg er mwyn cael eich ystyried.
- TGAU Mathemateg neu Fathemateg-Rhifedd ar Radd C neu uwch (neu gyfwerth).
- TGAU Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith Gyntaf Gradd C neu uwch (neu gyfwerth).
- TGAU Gwyddoniaeth ar Radd C neu uwch (neu gyfwerth) os ydych eisiau dod yn athro neu athrawes ysgol gynradd.
- Profiad o weithio mewn amgylchedd ysgol/gyda phobl ifanc os ydych eisiau astudio'r llwybr cyflogedig. Byddwch yn barod i gwblhau wythnos wirfoddol mewn ysgol cyn dechrau'r cwrs, os ydych eisiau astudio'r llwybr rhan-amser.

[1] Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ofynion mynediad ar ein gwefan openuniversity.co.uk/cymru-tar.

## Yn ogystal, bydd angen i chi arddangos y canlynol:

- Dawn, gallu, a gwydnwch i fodloni'r canlyniadau Statws Athro Cymwysedig (SAC) gofynnol erbyn diwedd eich rhaglen TAR.
- Rhinweddau personol a deallusol i ddod yn ymarferydd rhagorol.
- Gallwch ddarllen yn effeithiol a chyfathrebu'n glir ac yn gywir mewn Cymraeg a/neu Saesneg ysgrifenedig a llafar.
- Sgiliau gweithredol, personol mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol sy'n berthnasol mewn cyd-destun addysgu a dysgu proffesiynol. Bydd hyn yn cael ei asesu drwy asesiad.

## Yn ystod y broses ymgeisio, bydd angen i chi wneud y canlynol:

- Gwneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) i ddangos nad ydych, neu nad ydych yn y gorffennol wedi cael eich gwahardd na'ch diarddel rhag addysgu neu weithio gyda dysgwyr, neu fod gennych gefndir troseddol a all eich atal rhag gweithio gyda phlant neu bobl fregus. Mae diogelu yn ofyniad cyfreithiol. Gwneir y gwiriad DBS gan gwmni allanol a bydd disgwyl i chi dalu'r ffi.
- Cadarnhau eich bod yn deall y bydd angen i chi gwblhau cyfnod estynedig o amser mewn ail ysgol.
- Byddwch angen mynediad at gyfrifiadur gyda chysylltiad rhyngrwyd dibynadwy.
- Os ydych yn gwneud cais am y llwybr cyflogedig, rhaid i'ch ysgol gael ei chymeradwyo gan bartneriaeth y Brifysgol Agored a darparu llythyr ardystio ar eich cyfer. Ewch i'n tudalen Partneriaethau Ysgol i weld sut allai'ch ysgol chi ddod yn ysgol bartner TAR.
- Bydd angen i fyfyrwyr cyflogedig hefyd gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg fel Gweithiwr Cymorth Ysgol cyn dechrau'r rhaglen.



# Ffioedd a chyllid

Mae cost astudio'r TAR yn dibynnu ar y llwybr yr ydych yn gwneud cais amdano.

## Beth yw'r gost?

- **Llwybr cyflogedig** – Mae eich costau astudio'n cael eu talu gan grant hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru. Bydd y cyflog a enillir gan fyfyrwyr yn cael ei osod yn gyffredinol ar lefel isaf graddfa cyflog athrawon heb gymhwyso (ee. £19,689 ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/2023).
- **Llwybr rhan-amser** – £2,625 y flwyddyn yw ffi'r cwrs, a fydd yn cael ei thalu'n flynyddol. £5,250[1] fydd cyfanswm cost y TAR.

[1] Yn seiliedig ar ffioedd mynediad 2023. Mae ffioedd fel arfer yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant ac ymagwedd strategol y Brifysgol at ffioedd.

## Cyllid ar gyfer y llwybr rhan-amser

### Benthyciad myfyriwr

Efallai mai benthyciad myfyriwr gan Gyllid Myfyrwyr Cymru yw'r ffordd orau i gyllido eich astudiaethau.

#### Ffeithiau allweddol

- Mae ad-daliadau yn dechrau pan fydd eich incwm yn fwy na'r trothwy (£27,295 ym mis Ebrill 2022, mae hyn yn amodol ar newid yn 2024).
- Mae ad-daliadau yn cael eu tynnu'n awtomatig o'ch cyflog.
- Gallwch dalu'r benthyciad yn ôl yn gynnar heb unrhyw gosbau ariannol.
- Bydd unrhyw falans heb ei dalu ar ôl 30 mlynedd yn cael ei ddileu.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf ewch i'n gwefan yn **openuniversity.co.uk/pgce-funding**.

### Dulliau talu eraill

Gallwch dalu gyda cherdyn debyd neu gredyd, neu drwy drosglwyddiad banc. Neu gallwch ledaenu'r gost gyda Chyfrif Cyllideb Myfyrwyr y Brifysgol Agored Cyf (OUSBA) (gweler gyferbyn am ragor o wybodaeth).

## Cymorth ariannol arall

### Cymorth cynhaliaeth

Os ydych ar y llwybr rhan-amser, gallwch hefyd wneud cais am hyd at £3,000[2] o gyllid i helpu gyda chostau byw wrth i chi astudio. Nid benthyciad yw grant cynhaliaeth, felly ni fydd angen i chi ei ad-dalu. Mae'r swm rydych yn ei gael wedi'i seilio ar incwm blynyddol eich aelwyd. Os nad ydych chi'n gymwys am y swm llawn gallwch hefyd wneud cais am fenthyciad cynhaliaeth ychwanegol i dalu'r gwahaniaeth.

### Cymhelliannau Hyfforddi Athrawon

Yn ychwanegol, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer cymhelliannau gan Lywodraeth Cymru. Mae’r rhain yn ddibynnol ar ddosbarthiad eich gradd a’r cam neu bwnc rydych yn ei ddewis.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth drwy ymweld â safle llyw.cymru.[3]

[2] Yn gywir yn ôl blwyddyn academaidd 2023/2024.

[3] Mae’r cymhelliannau hyn yn cael eu cyhoeddi’n flynyddol ac felly gallant newid.

### Cymorth astudio a chronfeydd drwy ddisgresiwn

Gallech fod yn gymwys am gyllid ychwanegol sy'n seiliedig ar brawf modd. Dim ond ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag astudio, megis teithio, gofal plant a mynediad at y rhyngrwyd y gellir defnyddio'r arian hwn.

### Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA)

Gall DSA eich helpu gyda chostau astudio sy'n deillio'n uniongyrchol o'ch anabledd neu anhawster dysgu penodol. Nid ydynt yn seiliedig ar brawf modd a gallant fynd tuag at offer arbenigol (megis cyfrifiadur wedi'i addasu), cymorth astudio anfeddygol (e.e. gweithiwr cymorth dyslecsia) neu dreuliau cysylltiedig eraill. Gallwch hefyd wneud cais am gymorth gyda chostau teithio sy'n gysylltiedig ag astudio, sy'n deillio'n uniongyrchol o'ch anabledd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **openuniversity.co.uk/disability** neu ffoniwch ni ar **029 2047 1170**.

### Cyfrif Cyllideb Myfyrwyr y Brifysgol Agored Cyf (OUSBA)

Pan fyddwch yn cofrestru gyda ni, byddwch yn cael cynnig talu eich ffioedd drwy fenthyciad gan OUSBA.

Bydd OUSBA yn talu eich ffioedd i'r Brifysgol Agored, a byddwch naill ai yn ad-dalu OUSBA mewn un swm cyn i'ch cwrs ddechrau – yn yr achos hwn nid oes llog – neu mewn rhandaliadau misol dros flwyddyn – yn yr achos hwn, codir llog. Mae'r gyfradd llog yn sefydlog am hyd y cwrs (APR cynrychioladol o 5.1%).

Os ydych yn poeni am ba mor fforddiadwy yw hyn neu am hanes credyd gwael, gallwch wneud cais am fenthyciad ar y cyd gyda thrydydd parti e.e. partner, brawd neu chwaer, ffrind, ayb.

Darganfyddwch fwy am OUSBA yn **openuniversity.co.uk/ousba**.

Fel darparwr benthyciadau cyfrifol, mae OUSBA yn cynnal gwiriadau fforddiadwyedd fel rhan o'r broses ymgeisio.

> Fel athro cymwys bellach, rwyf mor ddiolchgar fy mod wedi dewis y Brifysgol Agored ac i'r ysgolion anhygoel sydd wedi fy helpu a'm cefnogi ar hyd fy nhaith.

**Wayne Williams**
**Myfyriwr TAR graddedig y Brifysgol Agored ac athro ysgol gynradd cymwys**

### Mwy o wybodaeth

Darganfod mwy am ffioedd a chyllid.

Ewch i **openuniversity.co.uk/pgce-funding**

openuniversity.co.uk

# Sut ydw i'n gwneud cais?

Fel rhan o'r broses ddethol, ac ar y cyd â'r Ysgolion Partner, rhaid i chi wneud y canlynol:

- Llenwi ffurflen gais TAR Cymru. Bydd hyn yn cynnwys datganiad personol a geirdaon. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y llwybr cyflogedig hefyd gynnwys llythyr ardystio gan yr ysgol. Dyma gadarnhad ysgrifenedig bod yr ysgol yn fodlon cymryd rhan yn y rhaglen a thalu rhan o'ch cyflog neu eich cyflog cyfan, yn dibynnu ar ba gam neu arbenigedd. (Mae templed ar gyfer hyn ar gael ar ein gwefan, ac mae'n **rhaid** ichi ei ddefnyddio a'i gyflwyno ar yr un pryd â'ch cais.) Gall hyn fod gan ysgol wladol yr ydych eisoes yn cael ei chyflogi ganddi, neu un yr ydych wedi cysylltu â hi. Gallwch wneud cais am y rhaglen cyflogedig heb ardystiad ysgol ar gyfer pynciau prinder yn unig, yna gallwn eich cysylltu, o bosib, ag ysgolion gwladol uwchradd sy'n chwilio am fyfyriwr cyflogedig.
- Cwblhau'r broses ddethol yn llwyddiannus a fydd yn cynnwys cyfweliadau ac amrywiaeth o ddulliau asesu i sicrhau bod unrhyw ddarpar athro yn bodloni'r gofynion mynediad statudol ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yng Nghymru.
- Cyflawni Systemau Profion Saesneg Iaith Rhyngwladol (IELTS) gyda sgôr o 7 (os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf ac mae eich gwlad enedigol y tu allan i'r DU).
- Cadarnhau eich bod yn cwrdd â gofynion Safonau Iechyd Addysg Llywodraeth Cymru.

## Camau nesaf

Am ragor o wybodaeth ac i ddechrau'r broses gofrestru:

- Ewch i **openuniversity.co.uk/cymru-tar**.
- Neu, siaradwch ag un o'n cynghorwyr cyfeillgar yn y Brifysgol Agored yng Nghymru ar **029 2002 0354**. Mae llinellau ar agor (amser y DU) o ddydd Llun i ddydd Gwener: 08:30 – 17:00.
- Gallwch hefyd anfon e-bost at **tar-cymru@open.ac.uk**.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg ac ni fydd gohebu gyda ni yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig drwy Siarter Frenhinol (RC000391), yn elusen a eithrir yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC038302).

Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a rheoleiddi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgaredd eilradd o frocera credyd.

Argraffwyd gan Paragon-CC ar nwyddau a'u hardystiwyd gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd a chan ddefnyddio inciau llysiau 100%.

Hawlfraint © 2023
Y Brifysgol Agored.
SUP 118036

Mae'r holl wybodaeth a ddarperir yn y prosbectws hwn yn gywir ar adeg ei gynhyrchu (Medi 2023), fodd bynnag gall y wybodaeth newid. Ewch i'n gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

An English language version of this prospectus is available.

MIX
Paper from responsible sources
FSC® C007810
FSC www.fsc.org